CYNGOR TREF FFESTINIOG TOWN COUNCIL

**Swyddfa'r Cyngor ● 5 Stryd Fawr ● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3ES**
**☎ 01766 832 398 ✉ clerc @cyngortrefffestiniog.cymru**

**COFNODION CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG**
**A GYNHALIWYD NOS IAU 9fed o CHWEFROR 2017**
**YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 Y.H.**

CADEIRYDD: Cynghorydd Annwen Daniels

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Erwyn Jones, Mel Goch ap Meirion, Kevin Baldwin, Mandy Williams-Davies Rory Francis, Bedwyr Gwilym, Will G Roberts, Mari Rees, Ronwen D Roberts a Gareth W Jones

9792/02/17 YMDDIHEURIADAU:
Cynghorwyr: Gareth Roberts

9793/02/17 DATGAN DIDDORDEB
**Cynghorydd Erwyn Jones 9802/02/17 Cais Cynllunio Rhif C17/0110/03/LL**
**Cynghorydd Annwen Daniels 9810/02/17 Y Dref Werdd**
**Cynghorydd Rory Francis 9810/02/17 Y Dref Werdd**

9794/02/17 MATERION BRYS

Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.
**Dalier Sylw trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.**

Bu i'r Cynghorwyr longyfarch Jess Kavanagh-Williams ar ennill ei chap cyntaf wrth chwarae rygbi i'w gwlad.

Bu i'r Cyngor dderbyn cerdyn o ddiolch am y cyfraniad ariannol gan Gylch Meithrin, Blaenau Ffestiniog.

Cafwyd gwybodaeth bydd cyfarfod nesaf o UnLlais Cymru i'w gynnal yn Nolgellau ar 23ain o Chwefror am 7.00 o'r gloch

Cafwyd llythyr ynglŷn ag arolwg o drefniadau etholiadol ar gyfer Gwynedd gan y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Gofynnir am sylwadau erbyn diwedd mis Mai 2017.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i drin y llythyr gan y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru mewn Pwyllgor Cynllunio.

9795/02/17 MATERION YR HEDDLU

Nid oedd aelod o'r Heddlu yn bresennol yn y cyfarfod.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9796/02/17 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION CYFARFOD ARFEROL 12fed IONAWR 2017

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion yn cynnig a'r Cynghorydd Erwyn Jones yn eilio

9797/02/17 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION CYFARFOD ANARFEROL 24ain IONAWR 2017

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Ronwen D Roberts yn cynnig a'r Cynghorydd Erwyn Jones yn eilio gyda'r cywirdeb bod y Cynghorydd Ronwen D Roberts yn bresennol yn y cyfarfod.

9798/02/17 CYFRIFON I'W TALU

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Catrin S Williams (Cyfieithydd x2) | £ | 150.88 | Rhif Siec. | 002367 |
| Cricieth Cleaning Ltd (Amrywiol) | £ | 997.60 | Rhif Siec. | 002368 |
| Kevin Jones (Camerâu ccc) | £ | 835.00 | Rhif Siec. | 002369 |
| Cyngor Gwynedd (Goleuadau Nadolig) | £ | 6013.67 | Rhif Siec. | 002370 |
| Blaenau Bendigedig (Coed Nadolig) | £ | 225.50 | Rhif Siec. | 002371 |
| Viking Direct (Goleuadau Nadolig) | £ | 214.04 | Rhif Siec. | 002372 |
| Arian Parod | £ | 100.00 | Rhif Siec. | 002373 |
| J P Farrington (Garddio) | £ | 1714.06 | Rhif Siec. | 002378 |
| Viking Direct (Defnydd swyddfa) | £ | 141.96 | Rhif Siec. | 002379 |
| Cyng. Bedwyr Gwilym (Lwfans Cynghorydd) | £ | 100.00 | Rhif Siec. | 002380 |
| BT(Ffôn) | £ | 37.15 | Debyd Uniongyrchol | |
| BT (Band eang) | £ | 40.80 | Debyd Uniongyrchol | |
| Antur Stiniog (Rhent) | £ | 276.00 | Debyd Uniongyrchol | |
| Cyngor Gwynedd (Trethi) | £ | 382.00 | Debyd Uniongyrchol | |

PENDERFYNIAD: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu'r uchod

9799/02/17 ARIAN I FEWN

| | |
|---|---|
| Y Dref Werdd (Rhentu Ystafell) | £ 168.00 |
| Cwmni Bro Ffestiniog (Plannu) | £1,000.00 |

9800/02/17 FFURFLENNI CYNGHORWYR

Derbyn ffurflenni ar gyfer Cofrestr Buddiannau Aelodau, Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch Aelodau a Lwfans Cynghorydd wedi eu cwblhau gan yr Aelodau.

PENDERFYNIAD: Bu i'r Clerc dderbyn ffurflenni wedi eu cwblhau gan y mwyafrif o'r cynghorwyr oedd yn bresennol.

9801/02/17 PWYLLGOR NADOLIG

Penodi aelodau o Bwyllgor Nadolig a threfnu dyddiad ar gyfer y cyfarfod cyntaf.

PENDERFYNIAD: Penodwyd y Cynghorwyr Annwen Daniels, Mandy Williams-Davies, Ronwen D Roberts, Mari Rees, Erwyn Jones a Kevin Baldwin gyda'r Clerc ac Elin Roberts hefyd ar y pwyllgor. Bydd y cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor am 7.00 o'r gloch nos Lun 27ain o Chwefror 2017. Bydd cyfrifoldeb am brynu unrhyw oleuadau Nadolig newydd hefyd gyda'r Pwyllgor hwn.

9802/02/17 PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – Cofrestr Newidiadau Materion sy'n Codi Trefnu dyddiad i drafod y newidiadau hyn. Gellir gweld y newidiadau arfaethedig ar www.gwynedd.llyw.cymru/cdll

PENDERFYNIAD: I gynnal cyfarfod Pwyllgor Cynllunio i drafod Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd - Cofrestr Newidiadau Materion sy'n Codi ar nos Lun 20fed o Chwefror 2017 yn y Siambr am 7.00 o'r gloch

9803/02/17 CEISIADAU CYNLLUNIO

**Datgan Diddordeb**

**Cynghorydd Erwyn Jones Cais Cynllunio Rhif C17/0110/03/LL**

Trafod ceisiadau sydd i law a derbyn penderfyniadau Awdurdodau Cynllunio

1. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/788
   Ymgeisydd Cartrefi Cymunedol Gwynedd
   9 Tŷ'n y Maes
   Ffestiniog
   Ailwampio strwythurol yn cynnwys gosod cladin allanol
   **Dim Gwrthwynebiad**
   Cyngor cyn cyflw
2. Cais Cynllunio Rhif C17/0027/03/LL
   Ymgeisydd Mr K Coleman
   Gretaburn
   12 Glanypwll
   Blaenau Ffestiniog
   Cais ôl gweithredol i ddychwelyd 1 tŷ preswyl presennol i'w ddefnydd gwreiddiol fel dau dŷ preswyl ar wahân
   **Dim Gwrthwynebiad**
3. Cais Cynllunio Rhif C17/0059/03/LL
   Ymgeisydd Roger Needle
   Pencae
   Fuches Wen
   Blaenau Ffestiniog
   Cais i ddymchwel sied bresennol a chodi estyniad cefn yn ei le
   **Dim Gwrthwynebiad**
4. Cais Cynllunio Rhif C17/0071/03/LL
   Ymgeisydd D Lloyd
   3 Mills Row
   Blaenau Ffestiniog
   Cais i godi estyniad llawr cyntaf ar gefn yr eiddo

**Dim Gwrthwynebiad**

5. Cais Cynllunio Rhif C17/0102/03/LL
Ymgeisydd North Wales Recycling Ltd
Chwarel Llechwedd, Blaenau Ffestiniog
Cais am orsaf trosglwyddo gwastraff i dderbyn a phrosesu deunyddiau anadweithiol
**I drafod y cais hwn mewn Pwyllgor Cynllunio i'w gynnal nos Lun 20fed o Chwefror 2017.**

6. Cais Cynllunio Rhif C17/0110/03/LL
Ymgeisydd Llechi Cymru
Chwarel Oakeley
Blaenau Ffestiniog
Symud deunydd o ddynodon gweithio mwynau
**I drafod y cais hwn mewn Pwyllgor Cynllunio i'w gynnal nos Lun 20fed o Chwefror 2017.**

## CEISIADAU AR GYFER CYNGOR CYN CYFLWYNO CAIS

1. Cais Cynllunio Rhif C16/1361/03/YM
Ymgeisydd M Jones
cyn safle Modurdy Gwylfa
Manod
Blaenau Ffestiniog
Codi tai - cyngor cyn cyflwyno cais

BxJDNDg0Nzc= 00000026

## CEISIADAU WEDI DERBYN PENDERFYNIAD AWDURDOD CYNLLUNIO

1. Cais Cynllunio Rhif C16/1570/03/LL
Ymgeisydd R & M Thomas
Bryn Myfyr
15 Ffordd Cwm Bowydd
Blaenau Ffestiniog
Cais ar gyfer codi modurdy
**Caniatáu**

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9804/02/17 YSGOLORIAETH PATAGONIA
Trafod trefniadau ar gyfer cyhoeddi enillydd Ysgoloriaeth Patagonia 2017/18

PENDERFYNIAD: I gyhoeddi enillydd Ysgoloriaeth Patagonia 2017/18 drwy gynnal noson o luniaeth a cherddoriaeth Gymreig fel y llynedd gyda'r Cynghorwyr Wil G Roberts a Mari Rees i ddarparu lluniaeth ar gyfer y noson a'r Cynghorydd Rory Francis i ddarparu'r gerddoriaeth.
I brynu anrhegion bychan i drigolion Rawson ac i'w rhoddi iddynt gan Maia Jones (enillydd Ysgoloriaeth Patagonia 2016/17 pan fydd yn ymweld â Rawson ym mis Mawrth.

9805/02/17 RHYBUDD O GYNIGIAD - gan y Cynghorydd Kevin Baldwin

Hoffwn i'r Cyngor Tref ystyried prynu a gosod diffibriliwr i gael ei roi ar y tu allan i adeilad y Cyngor Tref gyda'r holl gostau rhedeg i'w talu gan y Cyngor Tref.

PENDERFYNIAD: Er i'r Cynghorwyr gefnogi'r cynnig hwn, penderfynwyd ei ail drafod ar ol cael mwy o wybodaeth. Cafwyd gwybodaeth bod diffibriliwr yn debyg o gostio tua £1300 wedi ei osod ond gan mai tenantiaid i Antur Stiniog yw'r Cyngor Tref bydd anen caniatad ganddynt cyn gosod dim ar du allan i'r adeilad. Mae sawl diffibriliwr yn yr ardal sef tu allan i'r Orsaf Dan, Gorsaf Ambiwlans, Eurospar ac ar y stesion ond teimlwyd mai dim ond yr un ar yr Orsaf Dan sydd tu allan i adeilad. I ymestyn gwahoddiad i gynrychiolwyr o'r gangen Ymchwil y Galon Cymru lleol i drafod hyn ymhellach yng nghyfarfod mis Mawrth ac yna ail drafod y cynnig.

9806/02/17 IECHYD

Cafwyd gwybodaeth i'r Cynghorydd Mandy Williams-Davies gysylltu a'r Bwrdd Iechyd yn dilyn e-bost gan Mr O G Williams yn honi mai llechi o Sbaen oedd am gael eu defnyddio i doi'r adeilad iechyd newydd. Bu'r Cynghorydd Mandy Williams-Davies allu cadarnhau iddi gael sicrwydd mai llechi o Cwt y Bugail fydd ar yr adeilad.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9807/02/17 GWEFAN Y CYNGOR TREF

Cafwyd gwybodaeth bod y wefan yn symud ymlaen erbyn hyn a bu i pob cynghorydd allu edrych arni cyn iddi gael ei darfod a fynd yn fyw.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9808/02/17 BT

Cafwyd gwybodaeth bod BT yn bwriadu cau 4 bocs ffôn arall yn yr ardal. Ni wnaethpwyd unrhyw alwad ffôn o'r ddau focs ym Mhenbryn, Ffestiniog na'r bocsys yn Rhyd-y-sarn a Phantllwyd yn ystod y deuddeg mis diwethaf.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ond i ofyn i BT os yw'n bosib cadw'r bocs ffon yn Rhyd-y-sarn oherwydd y diffyg signal ffôn symudol a'r damweiniau difrifol sydd wedi digwydd yno.

9809/02/17 PARTNERIAETH Y PARC

Cafwyd gwybodaeth bod Partneriaeth y Parc wedi gwneud cais am Faner Werdd eto eleni.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9810/02/17 CAEAU CHWARAE

Cafwyd gwybodaeth bod y gwaith o dynnu'r hen draciau ceir modur a gosod tarmac wedi cychwyn a bod sbwriel yn cael ei gario oddi yno i lenwi'r twll sydd wedi ei wneud yng Nghae Baltic wrth i rywun geisio hawlio darn o'r tir. Mae Cae Baltic yn ei gyfanrwydd ar brydles hir dymor i'r Cyngor Tref a gobeithir y bydd y rhydd-ddaliad yn cael ei drosglwyddo i'r Cyngor Tref cyn hir. Bydd Ffrindiau Cae Baltic yn symud ymlaen gyda'r ffens o amgylch y cae cyn diwedd mis Mawrth.

Cafwyd gwybodaeth hefyd bod goleuadau'r Parc Sglefrio yn dal ymlaen am 1.00 o'r gloch y bore yn groes i'r amseroedd diffodd a gytunwyd gyda Chyngor Gwynedd.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i gysylltu â Chyngor Gwynedd ynglŷn ag amser diffodd goleuadau'r Parc Sglefrio.

9811/02/17 Y DREF WERDD

**Datgan Diddordeb**
**Cynghorydd Annwen Daniels**
**Cynghorydd Rory Francis**

Cais i'r Cyngor Tref gynnwys bin ar dir sydd yn cael ei ddatblygu fel man cymunedol yn Hafan Deg yn ei raglen gwagio biniau caeau chwarae.

PENDERFYNIAD: Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i holi am bris ar gyfer gwagio'r bin ac os yw'r pris yn dderbyniol gofyn i'r Dref Werdd rhoddi'r bin yn rhodd i'r Cyngor Tref fel ein bod yn gallu ei wagio o fewn ein dyletswyddau statudol.

9812/02/17 CYNGOR GWYNEDD

Rhaglen Waith - Chwefror
A496 Pont Tal y Bont - Tanygrisiau
Adnewyddu canllaw pont Tŷ'n y Cefn, gosod rhwystrau diogelwch newydd ac arwyddion mewn nifer o leoliadau.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9813/02/17 CYFLE I GYNGHORWYR ADRODD YN ÔL I'R CYNGOR YN DILYN EU PRESENOLDEB MEWN PWYLLGORAU ALLANOL

Bu i'r Cynghorydd Erwyn Jones adrodd iddo fynychu Pwyllgor Rheoli'r Ganolfan Gymdeithasol yn ddiweddar ac iddynt holi os oedd gan y Cyngor Tref bin sbwriel sbâr fyddent yn gallu ei osod o flaen yr adeilad.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i ganiatáu i'r Ganolfan Gymdeithasol dderbyn y bin sbâr olaf i'w osod o flaen yr adeilad.

9814/02/17 NEWYDDION O GYNGOR GWYNEDD

Gofynnodd y Cynghorydd Mandy Williams-Davies i'r cynghorwyr i wahodd cynrychiolwyr o GISDA i fynychu cyfarfod o'r Cyngor Tref ym mis Mawrth neu Ebrill i roi gwybod i'r Cyngor am eu datblygiadau diweddaraf

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i wahodd cynrychiolwyr o GISDA i gyfarfod o'r Cyngor Tref. Penderfynwyd hefyd i wahodd cynrychiolwyr o'r rhai sy'n ceisio ail-agor y rheilffordd o Flaenau Ffestiniog i Drawsfynydd i gyfarfod yn y dyfodol agos.

9815/02/17 AREN CYMRU

Gwybodaeth parthed Taith Dros Fywyd 23ain o Ebrill a sut i drefnu taith gerdded yn yr ardal

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45yh

CADEIRYDD

**CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR TREF**
**NOS IAU 9fed MAWRTH 2017**
**YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 y.h.**

**CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 9fed MAWRTH 2017**
**AR YR 2ail MAWRTH 2017**